


# CYNLLUN GWERS YR HINSAWDD GOCO
# I YSGOLION CYNRADD

Mae’r wers hon yn cyflwyno pwnc yr hinsawdd, gan roi’r cyfle i blant gymharu’r hinsawdd yn y DU â’r hinsawdd yn y rhanbarth o Orllewin Affrica sy’n tyfu coco. Mae gweithgaredd ychwanegol ar gael sy’n archwilio sut mae argyfwng yr hinsawdd yn effeithio ar y ddau ranbarth hyn.

## AMCANION DYSGU

- Gall dysgwyr gymharu’r hinsawdd yn y DU â rhanbarth o Orllewin Affrica sy’n tyfu coco.
- Gall dysgwyr ystyried sut mae argyfwng yr hinsawdd yn effeithio ar y ddau ranbarth hyn.

## YR HYN BYDD EI ANGEN ARNOCH

- Ffotograff Cychwynnol
- Ffilm ‘yr Hinsawdd Goco’
- Taflen waith yr hinsawdd goco

## GWEITHGAREDD CYCHWYNNOL

Dylech gyflwyno’r wers drwy ddangos Ffotograff Cychwynnol i’r plant. Dylech esbonio mai llun o ffermwr ar ei fferm ydyw. Gofynnwch i’r plant ddilyn cwestiynau i brocio trafodaeth mewn parau:

- *Pa fath o ffermwr yr ydych yn meddwl yw hwn?*
- *Beth sy’n tyfu ar fferm y ffermwr hwn?*
- *Ble yn y byd mae hyn?*
- *Beth rydych yn meddwl yw’r tymheredd yn y ffotograff hwn?*
- *Allai’r ffotograff hwn fod yn y DU? Pam rydych yn meddwl hyn?*

Dylech annog atebion, trafod ymatebion ac esbonio mai Madame Bazoua yw hon, ffermwr coco sy’n byw yn y Traeth Iforïaidd yng Ngorllewin Affrica.




## PRIF WEITHGAREDD

Bydd y ffilm hon a'r daflen waith ddilynol yn datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r hinsawdd mewn hinsoddau tymherus a choedwigoedd glaw trofannol.

- Dylech gyflwyno'r ffilm 'yr Hinsawdd Goco'. Esboniwch fod y dosbarth yn mynd i ddod o hyd i wybodaeth am yr hinsoddau gwahanol yn y DU, ac yn y rhanbarth o Orllewin Affrica sy'n tyfu coco.
- Gwyliwch y ffilm 3 munud 'yr Hinsawdd Goco'.
- Gofynnwch i'r myfyrwyr: *Beth yw'r gwahaniaethau rhwng yr hinsoddau hyn? Beth sy'n debyg?*
- Ar ôl gwylio'r 'Hinsawdd Goco', gofynnwch i'r myfyrwyr, mewn parau, i ddefnyddio'r daflen waith yr Hinsawdd Goco i gofnodi'r hyn sy'n debyg a'r gwahaniaethau.
- Dylech atgoffa'r plant i gofnodi'r mathau o amaethyddiaeth yn ddwy hinsawdd hyn.

## ESTYNIAD

Yn y ffilm 'yr Hinsawdd Goco', gwnaeth y myfyrwyr ddysgu bod argyfwng yr hinsawdd yn newid patrymau'r tywydd mewn parthau hinsawdd gwahanol. Mae hyn eisoes yn cael effaith negyddol ar ffermwyr coco mewn hinsoddau trofannol.

- Gofynnwch i'r plant ddefnyddio pin nei bensil lliw gwahanol i gofnodi **effeithiau'r** argyfwng hinsawdd ar eu diagram Venn. *Sut effeithir ar hinsoddau tymherus gan yr argyfwng hinsawdd? Sut effeithir ar hinsoddai coedwigoedd glaw trofannol gan yr argyfwng hinsawdd?* ***Sut effeithir ar bobl yn yr amgylcheddau hynny?***
- Gall myfyrwyr gael eu cefnogi gan dabled, llyfrau ffeithiol neu gyfrifiaduron i ehangu eu dysgu os oes dymuniad i wneud hynny.
- Adolygu cymheiriaid. Unwaith y bydd pob pâr wedi cwblhau ei diagram Venn, gofynnwch iddynt gyfnewid â grŵp arall. A ydynt wedi dod i'r un casgliadau? A oes unrhyw beth maent wedi'i ddysgu gan gofnodion grwpiau eraill?

## SYNIADAU DILYNOL

- Gofynnwch i'r plant baratoi ces ddillad ar gyfer teithio i hinsawdd dymherus a hinsawdd coedwigoedd glaw trofannol.
- Dylech greu eich gweledigaeth o'r byd rydych am ei gael i ffermwyr a gweithwyr ym mhedwar ban byd, a'r blaned rydym yn ei rhannu. Cymerwch ran yn yr Arddangosfa Ieuenctid 'Dewiswch y byd rydych am ei gael' ar gyfer Pythefnos Masnach Deg 2021